ALL WALES HEPATOLOGY NURSE FORUM

Cyngor am ddim ynghylch iechyd eich afu
Fibroscan am ddim
Profion cyfrinachol am Hepatitis B a C am ddim

Ar gael trwy'r dydd ar y dyddiadau isod, gyda nyrsys arbenigol.

Dydd Mawrth 17 Medi 2019
9.30 yb – 6.30 yp
Canolfan Hamdden Llantrisant, CF72 8DL

Dydd Mercher 18 Medi 2019
9.30 yb – 6.30 yp
Canolfan Hamdden Merthyr Tydfil, CF48 1UT

Dydd Iau 19 Medi 2019
9.30 yb – 6.30 yp
Canolfan Hamdden Tylorstown, CF43 3HR

Dydd Gwener 20 Medi 2019
9.30 yb – 5.30 yp
Canolfan Hamdden Abercynon, CF45 4UY



Clefyd yr afu yw'r pumed lladdwr mwyaf cyffredin yn y DU.

Mae llawer o glefydau all effeithio ar yr afu ac arwain at glefyd cronig yr afu, sirosis, methiant yr afu ac, o bosibl, canser yr afu.

Mae gordewdra, camddefnyddio alcohol a firysau sy'n cael eu cludo yn y gwaed ymhlith y ffactorau sy'n cyfrannu at ddatblygiad clefyd yr afu mewn pobl yng Nghymru.

Mae Hepatitis B a C yn firysau a gludir yn y gwaed,
sy'n cael eu trosglwyddo o berson i berson trwy ddod i gysylltiad â gwaed / hylifau corff heintiedig.
Does dim symptomau gan y rhan fwyaf o bobl, ac felly dydyn nhw ddim yn gwybod am yr haint.
Os na chaiff ei drin, gall y firysau hyn arwain at glefyd cronig yr afu.

Mae gordewdra yn cynyddu'r risg o ddatblygu clefyd brasterog yr afu.
Ymhlith y 25% o'r boblogaeth sy'n ordew yn y DU, bydd y rhan fwyaf ohonyn nhw gyda chlefyd yr afu brasterog. Bydd afu llawer ohonyn nhw yn creithio ac yn llidio hefyd, a fydd yn arwain at sirosis.

Mae clefyd yr afu yn gysylltiedig ag alcohol yn cyfeirio at niwed i'r afu yn sgil camddefnyddio alcohol.
Bydd yfed o fewn y canllawiau, a rhoi'r gorau i yfed alcohol bob hyn a hyn, yn helpu eich afu i aros yn iach.

Mae Fibroscan yn dechneg sy'n cael ei defnyddio i asesu stiffrwydd yr afu.
Po fwyaf stiff yw'r afu, gwaethaf y ffibrosis.

Mae'r archwiliad yn ddi-boen, yn gyflym ac yn hawdd.

Am unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r digwyddiad,
cysylltwch â Vickie Jones ar 01443 443443 est 74849

ALL WALES HEPATOLOGY NURSE FORUM

Free liver health advice
Free Fibroscan's
Free confidential testing for Hepatitis B & C

Available on the below dates and performed by qualified Specialist Nurse's

Tuesday 17th September 2019
9.30 am – 6.30 pm
Llantrisant Leisure Centre, CF72 8DL

Wednesday 18th September 2019
9.30 am – 6.30 pm
Merthyr Tydfil Leisure Centre, CF48 1UT

Thursday 19th September 2019
9.30 am – 6.30 pm
Tylorstown Sports Centre, CF43 3HR

Friday 20th September 2019
9.30 am – 5.30 pm
Abercynon Leisure Centre, CF45 4UY



Liver disease is the fifth biggest killer in the UK.

There are many diseases that can affect the liver leading to chronic liver disease, cirrhosis, liver failure and potentially liver cancer.

Obesity, alcohol misuse and blood borne viruses are some of the contributing factors to the development of liver disease in Wales.

Hepatitis B & C are blood borne viruses that spread from person to person by contact with infected blood and/or bodily fluids.
Many people show no symptoms and therefore are unaware of their infection.
If left untreated these viruses can lead to chronic liver disease.

Obesity increases the risk of developing fatty liver disease.
Of the 25% of the UK population categorised as obese, most will have fatty liver disease and many will have scarring and inflammation that leads to cirrhosis.

Alcohol related liver disease refers to liver damage caused by alcohol misuse. Drinking within the guidelines and taking regular breaks from alcohol will help your liver stay healthy.

A Fibroscan is a technique used to assess liver stiffness.
The stiffer the liver, the greater the degree of fibrosis.

The examination is painless, quick and easy.

For any queries regarding the event please contact:
Vickie Jones on 01443 443443 ext 74849